Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Therapiwtig Amberleigh

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Therapiwtig Amberleigh

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Therapiwtig Amberleigh, Golfa Hall |
| Statws y perchennog | Amberleigh Care Ltd. |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Arbenigol ADY annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 13 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 13 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 23/09/2024 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Ysgol Therapiwtig Amberleigh yn ysgol annibynnol, sy'n darparu addysg, gofal a therapi ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion rhwng 11 ac 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae 13 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Gweinyddir yr ysgol gan Amberleigh Care Limited, sef asiantaeth gwasanaethau plant arbenigol, sydd ag ysgol arbennig annibynnol arall yn Lloegr.

Mae gan ryw hanner y disgyblion gynllun datblygu unigol (CDU) neu gyfwerth. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu Loegr ac yn byw yn y cartref plant ar y safle.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2024, ar ôl bod yn swydd y dirprwy bennaeth er mis Ionawr 2021. Fe'i cefnogir gan ddirprwy bennaeth a oedd yn newydd yn y swydd adeg yr arolygiad.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm teilwredig, sy'n cael ei wahaniaethu ar gyfer pob disgybl o fewn dull 'cyfnod nid oedran'. Caiff disgyblion gyfle i astudio ac ennill achrediad am ystod briodol o bynciau mewn TGAU, BTEC, Lefel 1 a 2 Sgiliau Gweithredol, Dyfarniadau Lefel Mynediad, Tystysgrifau a Diplomâu. Nid oes mwy na phedwar disgybl mewn dosbarthiadau. Mae staff yn yr ysgol yn cyfarfod bob dydd ac yn cynnal cyfarfodydd cymunedol proses therapiwtig estynedig ddwywaith yr wythnos i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o anghenion y disgyblion. Mae pob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn mynychu o leiaf un sesiwn therapi bob wythnos i fynd i'r afael â thrawma ac anghenion cysylltiedig.

Ymwelodd tîm o AEF â'r ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2023. Ar yr adeg hon, roedd yr ysgol yn bodloni gofynion y Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru).

## Crynodeb

Mae bron pob un o'r disgyblion yn Ysgol Therapiwtig Amberleigh yn ymateb yn dda i'r amgylchedd meithringar a chefnogol y mae'n ei ddarparu. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol mewn llythrennedd a rhifedd. Caiff disgyblion gymorth da i feithrin eu medrau rhyngbersonol, yn cynnwys gwrando, empathi a myfyrio ac maent yn gwneud cynnydd eithriadol o effeithiol yn datblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol a TGCh.

Mae staff addysgu yn hynod ymroddgar, yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio da â nhw. Pan mae'r cynllunio, yr asesu a'r adborth yn effeithiol, mae gan staff a disgyblion ddealltwriaeth dda o gynnydd a sut i symud y dysgu ymlaen. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon bob amser yn cysylltu ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion ac yn canolbwyntio ar dargedau unigol a nodwyd yng nghynlluniau datblygu unigol (CDUau) disgyblion neu gyfwerth yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn cynorthwyo'r disgyblion yn dda iawn i ddatblygu 'cynlluniau gweithredu gyrfa' a phrofi'r cyfleoedd gorau posibl mewn rhaglenni profiad gwaith. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wella'u dealltwriaeth o fyd gwaith a gyrfaoedd posibl yn y dyfodol. Yn ychwanegol, mae menter 'Cynnyrch Golfa' ('Golfa Produce') yn helpu disgyblion i ennill medrau gwerthfawr ar gyfer y gweithle. Mae hon yn nodwedd hynod gref yn yr ysgol.

Mae pob un o'r disgyblion yn cael sesiynau therapiwtig un i un trwy gyfle i weithio'n unigol fel rhan o sesiwn anogaeth, ac yn mynychu cyfarfodydd grŵp gwerthfawr lle gallant godi materion sy'n bwysig iddynt. O ganlyniad, mae rhyngweithio disgyblion gyda'i gilydd a'r staff yn gadarnhaol a pharchus.

Mae gan ddisgyblion lais cryf ar draws Amberleigh ac maent yn helpu dylanwadu ar waith yr ysgol. Maent yn hyderus y bydd staff yn gwrando ac yn gweithredu ar eu barn. Yn ychwanegol, ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu medrau arwain gwerthfawr, er enghraifft fel rhan o gyfarfodydd cymunedol rheolaidd.

Mae arweinwyr, staff addysg a staff o'r tîm ehangach yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i staff drafod materion gweithredol a rhannu arfer mewn meysydd fel diogelu, cynllunio ac asesu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn dethol a dadansoddi gwybodaeth yn ddigon da i nodi patrymau a thueddiadau yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'u gweithgareddau hunanwerthuso yn dda i gytuno ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae ganddynt hanes da o welliant ac maent wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â'r argymhelliad o'r ymweliad monitro yn 2023. Maent yn gwerthuso cynnydd ac adborth yn rheolaidd ac nid oes ofn arnynt ddiwygio'u dulliau neu newid cyfeiriad os nad yw rhywbeth yn gweithio. Fodd bynnag, mae llawer o'r newidiadau hyn, fel y gwelliannau angenrheidiol i ddysgu proffesiynol, mewn cyfnodau datblygu cynnar iawn oherwydd newidiadau diweddar mewn arweinyddiaeth, ac nid ydynt wedi dechrau cael effaith eto.

# Prif werthusiad

## Dysgu a chynnydd

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Therapiwtig Amberleigh yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn cymhwyso hyn i gyd-destunau a thasgau newydd. Maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus.

Mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn arbennig o dda. Maent yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â staff ac yn dysgu gweithio'n briodol ochr yn ochr â'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac yn barchus ar eu cyfoedion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau rhyngweithio cymdeithasol priodol ac yn defnyddio moesau eithriadol o dda ac iaith gwrtais wrth gyfarch pobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau llythrennedd. Maent yn ymateb i gwestiynau athrawon yn briodol, gan ddefnyddio brawddegau byrion, enghreifftiau perthnasol a geirfa sy'n benodol i bwnc. Maent yn rhannu eu barn yn hyderus, ac mae llawer ohonynt yn rhoi rhesymau tra ystyriol i gefnogi eu barn, er enghraifft wrth drafod gyrfaoedd yn y diwydiant lletygarwch neu wrth gynllunio ac adeiladu blwch adar.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau rhifedd mewn gwersi mathemateg ac ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn cyfrifo maint y pren sydd ei angen i wneud blwch adar trwy dynnu llun diagramau graddfa, a gallant fesur i'r milimedr agosaf.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ennill ystod o gymwysterau mewn pynciau fel Saesneg, mathemateg, arlwyo, lletygarwch a menter, sy'n gweddu'n dda i'w gallu, eu diddordebau a'u hanghenion. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf, enillodd lleiafrif o ddisgyblion eu gwobr Dug Caeredin naill ai ar lefel efydd neu arian.

Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn gwella'u presenoldeb a'u hymgysylltiad o'u mannau cychwyn unigol.

## Y cwricwlwm ac addysgu

Mae gan yr ysgol gwricwlwm eang a chytbwys, sy'n canolbwyntio ar gyfnodau datblygiadol disgyblion yn hytrach na'u hoedrannau cronolegol. Mae'r cwricwlwm hwn yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion wneud cynnydd ym mhob maes pwnc, yn aml mewn cyd-destun byd go iawn.

Cafodd yr ymagwedd at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ei hymgorffori'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn pynciau fel crefft ac yn eu gwersi gwyddoniaeth. Mae llawer o athrawon yn cynllunio neu'n adeiladu ar gyfleoedd sy'n codi'n naturiol, i ddatblygu medrau, er enghraifft wrth gyfrifo cyflymdra a chyflymiad car model mewn gwers wyddoniaeth. Fodd bynnag, mae diffyg cynllunio systematig yn cyfyngu ar y cynnydd a wna disgyblion wrth ddatblygu eu medrau TGCh a digidol.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ystod o weithgareddau corfforol ac awyr agored buddiol a gwerth chweil fel rhan o arlwy cwricwlwm yr ysgol, er enghraifft cerdded bryniau, dilyn rhaglen ffitrwydd, gweithio tuag at redeg 5km, neu chwarae pêl-fasged a phêl-droed. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cryf i ddatblygu medrau cymdeithasol disgyblion trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin tîm fel adeiladu rafft a phadlfyrddio. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddo i wella'u ffitrwydd a'u lles.

### Gweithgareddau cyfoethogi a dysgu cyfannol

Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau cyfoethogi buddiol ar ôl yr ysgol, sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu dysgu, eu hymgysylltiad a'u lles. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfle i fynychu clybiau mathemateg, iaith (yn cynnwys y Gymraeg ac Almaeneg), creu modelau a'r celfyddydau perfformiadol, yn ogystal â sesiynau medrau astudio. Gall bron pob un o'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau efydd, arian ac aur Dug Caeredin. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau hyn ac yn mynychu'n gyson, sy'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu dysgu ochr yn ochr â rhyngweithio cymdeithasol ystyrlon y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae gan yr ysgol gynllun gwaith manwl ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd (ABGI), sy'n cynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh), a gyflwynir ar y lefel sy'n briodol i anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio ag asiantaethau allanol i gefnogi dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus a meithrin perthnasoedd cadarnhaol. Er enghraifft, ymweliadau rheolaidd gan swyddogion cymorth cymunedol lleol yr heddlu i gyflwyno sesiynau gwerthfawr ar destunau fel yfed a gyrru a llinellau cyffuriau. Er bod y cynllun gwaith ABGI yn ymdrin â thestunau hanfodol sy'n galluogi disgyblion i ddeall sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel a deall eu hawliau, mae cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) o fewn y cwricwlwm yn gyfyngedig.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol â disgyblion sydd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn defnyddio holi yn gadarn i wirio dealltwriaeth disgyblion, monitro'u cynnydd a rhoi canmoliaeth ac adborth defnyddiol ar lafar.

Ar draws yr ysgol, mae gwersi wedi'u cynllunio'n dda, ar y cyfan, ac o ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Fodd bynnag, mae anghysondebau mewn datblygu cynlluniau gwaith a diffyg cynllunio cydlynus i gymhwyso strategaethau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Yn ychwanegol, mae dealltwriaeth athrawon o sut gallai ADY unigolion rwystro'u dysgu yn gyfyngedig.

**Gyrfaoedd a phrofiadau yn y gymuned ehangach**

Mae'r ysgol yn darparu cyngor a chymorth cynhwysfawr o ran gyrfaoedd i bob un o'r disgyblion, yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinydd gyrfaoedd yr ysgol i ddatblygu 'cynlluniau gweithredu gyrfa' sy'n rhoi manylion am eu dyheadau yn y dyfodol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ddarparu lleoliadau profiad gwaith priodol gyda datblygiad medrau targedig.

Mewn partneriaeth â busnesau lleol, caiff disgyblion brofiadau a lleoliadau ystyrlon mewn lleoliadau amrywiol, yn cynnwys yr orsaf dân, cigyddion, siop elusen, gorsaf reilffordd, caffis a chwmnïau cenedlaethol fel gweithgynhyrchwyr amaethyddol ac archfarchnadoedd. Pan fo'n briodol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr hefyd i ddatblygu medrau gyrfa ar y safle, trwy leoliadau gyda thîm cynnal a chadw'r ysgol. Mae prosiect menter yr ysgol, sef 'Cynnyrch Golfa' ('Golfa Produce'), hefyd yn galluogi disgyblion i ddatblygu ystod werthfawr o fedrau tra'n eu galluogi i werthu a dathlu eu creadigaethau mewn digwyddiadau marchnad lleol.

O ganlyniad i'r dull teilwredig hwn, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r broses yrfaoedd gan ddeall ei phwysigrwydd ar gyfer dilyniant yn y dyfodol.

## Cymuned ac anogaeth

Mae llais y disgybl yn Amberleigh yn gryf iawn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod ganddynt lais yn yr ysgol ac maent yn hyderus y bydd staff addysg yn gwrando arnynt i ddylanwadu ar newid. Mae adborth i ddisgyblion ar eu barn yn brydlon, ac fe gaiff disgyblion eu cynnwys yn weithredol yn aml mewn gwneud penderfyniadau, yn cynnwys penodi staff, gan eu cynorthwyo i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Ceir cyfleoedd amryfal ar draws yr ysgol i ddisgyblion rannu eu barn yn briodol mewn cyfarfodydd grŵp ac unigol. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain.

**Cymuned Estynedig Amberleigh**

Mae ymagwedd therapiwtig a bywyd cymunedol integredig yr ysgol yn meithrin amgylchedd anogol ac ymddiriedus lle caiff disgyblion eu hannog i siarad am sut maent yn teimlo, ymgymryd â chyfrifoldeb a datblygu ymdeimlad o berthyn.

Mae cyfarfodydd dyddiol yn union cyn ac ar ôl yr ysgol yn ganolog i'r diwylliant hwn, ynghyd â chyfarfodydd estynedig ddwywaith yr wythnos, sy'n galluogi disgyblion i rannu eu meddyliau a'u profiadau mewn ffordd agored, onest a diogel. Trwy'r profiadau hyn, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu mynegi eu barn yn gadarnhaol, gan ddatblygu medrau i ddeall a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau neu farnau.

Mae sesiynau anogaeth wedi'u hamserlennu yn darparu lle diogel i ddisgyblion feithrin perthnasoedd ymddiriedus a dysgu strategaethau i helpu rheoli eu hemosiynau. Er enghraifft, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'r medrau i wybod pryd i'w tynnu eu hunain allan o wersi am gyfnodau byr a sut i ailymgysylltu â'u dysgu yn brydlon yn ddiweddarach. O ganlyniad, gall bron pob un o'r disgyblion ymgysylltu'n llawn â chwricwlwm ehangach yr ysgol. Mae'r arweinydd anogaeth ac

ymyrraeth yn cyfarfod â therapyddion yr ysgol yn rheolaidd i drafod disgyblion unigol, ac yn arsylwi disgyblion yn y dosbarth yn rheolaidd. Caiff strategaethau llwyddiannus eu cyfleu i'r tîm staff ehangach yn anffurfiol trwy ryngweithio o un diwrnod i'r llall, ac yn ffurfiol trwy gyfarfodydd staff.

Mae'r ymagwedd amlddisgyblaethol at ddiwallu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion yn nodwedd gref yng ngwaith yr ysgol.

## Cadw'n ddiogel

Mae gan bron bob un o'r staff ddealltwriaeth dda o les ac anghenion iechyd meddwl ehangach disgyblion. Maent yn darparu ystod fuddiol o offer ar gyfer disgyblion i gefnogi eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, rheoli eu hymddygiad a'u paratoi'n dda ar gyfer bywyd ar ôl addysg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mynd ati'n annibynnol ac yn hyderus i ddefnyddio'r offer hwn yn briodol, pan fydd angen.

Mae ymagwedd yr ysgol at reoli ymddygiad yn effeithiol ac yn creu awyrgylch dysgu digynnwrf yn yr ysgol. Mae trefniadau addas ar waith i reoli, cofnodi ac adrodd am unrhyw achosion o ymddygiad heriol. Caiff asesiadau risg disgyblion unigol eu diweddaru ar ôl digwyddiadau arwyddocaol, sy'n cynorthwyo staff i ddeall y strategaethau gorau i gefnogi'r disgyblion. Caiff yr ymagweddau cadarnhaol at reoli ymddygiad disgyblion yn yr ysgol eu cydlynu'n dda rhwng yr ysgol a'r cartref, ac mae staff yn y cartref preswyl cysylltiedig yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn ymdrin yn gyson ag unrhyw achosion o fwlio ac yn canolbwyntio'n addas ar ddatblygu ethos cadarnhaol a diffyg goddefgarwch at fwlio, gwerthfawrogi a dathlu unigoliaeth a chefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol, hunan-barch a gwydnwch. Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i'r cyfarfodydd cymunedol, sy'n eu galluogi i godi pryderon a thrafod materion â'u cyfoedion.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod disgyblion yn ddiogel. Mae arweinwyr yn annog pob un o'r staff i ddeall eu cyfrifoldeb i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer disgyblion ag anghenion amrywiol a chymhleth. Fodd bynnag, er bod ymdriniaeth briodol â phryderon ynghylch diogelu, a hynny mewn modd amserol, mae diffyg cydlyniant wrth gofnodi pryderon yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ddarparu trosolwg manwl yn hawdd ar gyfer pob disgybl, gydag unrhyw batrymau a materion yn cael eu cyflwyno'n glir.

## Arweinyddiaeth

Mewn cyfnod amser byr iawn, mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae hon wedi'i seilio ar hyrwyddo lles disgyblion, gan sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer dysgu a bod staff a disgyblion yn rhannu ymdeimlad o uchelgais am yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae gan arweinwyr uchelgeisiau uchel ar gyfer eu disgyblion, a disgwyliadau uchel o'u staff.

Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi dechrau adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ac wedi cyflwyno prosesau a systemau cynhwysfawr i gryfhau'r trefniadau sicrhau ansawdd. Mae uwch arweinwyr wedi datblygu rhaglen fanwl ar gyfer gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae hyn yn rhoi trosolwg defnyddiol o ddigwyddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn ac yn cynnwys rhaglen o arsylwadau gwersi, dyddiadau asesu,

dyddiadau cyfarfodydd a sesiynau dysgu proffesiynol. Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi penodi dirprwy bennaeth newydd a fydd yn cynyddu'r gallu i yrru gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth allweddol.

Mae arweinwyr wedi rhoi lles staff yn ganolog i'w gwaith ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer myfyrio a chymorth rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i'r staff addysg drafod unrhyw faterion neu bryderon gyda'r tîm therapi fel rhan o gyfarfodydd grŵp 'dynamig'. O ganlyniad, mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ymdeimlad cryf o gymuned.

Mae arweinwyr yn casglu ystod eang o ddata i gefnogi hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y data hwn yn ddigon da i nodi tueddiadau mewn addysgu a dysgu a rhyngweithio â gwasanaethau cymorth i fesur p'un a oes digon o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mewn rhai meysydd pwysig, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith camau a mentrau yn llawn.

**Deall cyfrifoldebau a datblygu dysgu proffesiynol**

Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau unigol yn yr ysgol. Cytunir ar gyfrifoldebau staff addysg fel targedau o fewn prosesau rheoli perfformiad, a'u trafod bob blwyddyn. Hefyd, amlinellir rolau a chyfrifoldebau mewn swydd-ddisgrifiadau generig. Mae arweinwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod perfformiad aelodau staff unigol, eu hanghenion ac unrhyw gymorth a her yn y dyfodol. Fodd bynnag, bron ym mhob achos, oherwydd nad yw swydd-ddisgrifiadau yn dogfennu cyfrifoldebau amrywiol a helaeth y deiliaid swyddi yn llawn, mae hyn yn effeithio ar allu'r perchennog i wneud asesiadau cywir o berfformiad unigol neu'u dwyn i gyfrif.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd personoledig ar gyfer datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, caiff staff gyfle i gwblhau cymwysterau ôl-raddedig a chymwysterau proffesiynol cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw dysgu proffesiynol bob amser yn cysylltu'n effeithiol â gwella addysgu a dysgu neu roi strategaethau ar waith i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Megis dechrau cryfhau'r rhaglen hyfforddi y mae arweinwyr. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y gwaith hwn.

Mae arweinwyr yn cydnabod yr heriau sydd o'u blaenau, ac yn dangos ymrwymiad a phenderfyniad i fynd i'r afael â'r rhain. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r agweddau ar yr ysgol sydd angen eu gwella, ac mae'n rhy gynnar i farnu effaith hyn.

## Cydymffurfio â’r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae’r rheoliadau hyn yn gofyn i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Atgyfnerthu gwybodaeth hanfodol i alluogi arweinwyr i werthuso effaith mentrau'r ysgol yn fwy effeithiol

A2 Sicrhau bod staff yn defnyddio gwybodaeth ynghylch ADY disgyblion wrth gynllunio gwersi a gweithgareddau dysgu

A3 Datblygu dysgu proffesiynol ymhellach i ganolbwyntio'n fwy craff ar addysgu a dysgu a strategaethau i gynorthwyo disgyblion ag ADY

A4 Cryfhau'r cwricwlwm i roi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ac ymwybyddiaeth o CCUHP

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Dylai'r ysgol roi copi o'r adroddiad hwn neu grynodeb ohono i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol, hefyd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu’r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  25/11/2024